Statws heb ei Ddatgan	3	2	50+	12	10

### 2.2.2 Sylwadau/Dadansoddiad

Mae nifer y staff a fu'n destun i weithdrefnau ffurfiol perfformiad gwael eleni'n isel iawn, ac felly er bod y ganran o ddynion a fu'n destun i weithdrefnau ffurfiol yn anghymesur o uchel ar 62.5%, mae'n amhosibl tynnu unrhyw dueddiadau diffiniol o'r fath grŵp bychan.

### 2.2.3 Argymhellion

- Y dylai EDU ac Adnoddau Dynol mewn partneriaeth â DTUS a Rhwydweithiau Staff barhau i weithio gyda'r busnes ehangach i gynyddu'r cyfraddau datganiad i staff sy'n destun i berfformiad gwael yn ogystal â gweithdrefnau cyflogi eraill er mwyn galluogi dadansoddiad ystyrlon o unrhyw effeithiau andwyol cydraddoldeb posibl sy'n gysylltiedig â gweithredu'r polisi hwn.

## 2.3 Achosion Disgyblaethol

Mae'r adran hon yn tynnu sylw at y nifer yr achosion disgyblaethol ffurfiol sydd wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn adrodd, gyda dadansoddiad o ganlyniadau disgyblu.

Mae canlyniadau "terfynol" yn cynnwys achosion lle mai'r canlyniad oedd rhybudd ysgrifenedig terfynol, rhybudd ysgrifenedig terfynol gyda chamau sy'n fyr o ddiswyddo, neu ddiswyddo. Mae'r canlyniadau wedi cael eu cyfuno gan fod y niferoedd ar gyfer y canlyniadau hyn yn rhy isel i alluogi i ddata gael ei adrodd ar wahân.

### 2.3.1 Canfyddiadau

- Roedd 0.7% (59) o staff y CPS yn destun achosion disgyblaethol a gafodd eu cwblhau eleni, gyda 17 yn arwain at ganlyniad terfynol.
- **Rhywedd** - Roedd 57.63% (34) o'r staff a oedd yn destun i achosion disgyblaethol yn fenywod fel ag yr oedd 41.18% (7) o'r staff mewn achosion lle'r oedd canlyniad terfynol. Nid oedd achos i'w ateb yn y gweddill neu cawsant rybuddion ysgrifenedig cyntaf.
- **Hil** - Roedd 25.42% (15) o'r staff a oedd yn destun i achosion disgyblaethol BME fel ag yr oedd 23.53% (4) o'r staff mewn achosion lle'r oedd canlyniad terfynol. Nid oedd achos i'w ateb yn y gweddill neu cawsant rybuddion ysgrifenedig cyntaf.
- **Anabledd** - Roedd 13.36% (8) o'r staff a oedd yn destun i achosion disgyblaethol yn anabl fel ag yr oedd 11.76% (2) o'r achosion lle'r oedd canlyniad terfynol. Nid oedd achos i'w ateb yn y gweddill neu cawsant rybuddion ysgrifenedig cyntaf.
- **Cyfeiriadedd Rhywiol** – Nid oedd unrhyw staff LGB yn destun i achosion disgyblaethol yn ystod y cyfnod hwn.
- **Crefydd neu Gredo** – Ni wnaeth y mwyafrif o'r staff 49.15% (29) a oedd yn destun i achosion disgyblaethol wedi datgan crefydd neu gredo. Y grŵp mwyaf i wneud datganiad oedd Cristnogion ar 32.2% (19).
- **Oedran** - Y grwpiau oedran a oedd fwyaf tebygol o fod yn destun i achosion disgyblaethol oedd y grŵp oedran 35-49 ar 49.15% (29).

**Tabl M - Nifer yr achosion disgyblaethol yn ôl nodweddion a ddiogelir**

Rhywedd	Cyfanswm		Cyfeiriadedd Rhywiol	Cyfanswm
Dynion	25		Dynion/Menywod Heterorywiol	29
Menywod	34		LGB	0
			Dim Ateb	28
Hil	Cyfanswm		Crefydd	Cyfanswm
BME	15		Cristion	19
Gwyn	34		Dim Crefydd neu Gredo	2
Ethnigrwydd Anhysbys	10		Dim Ateb	29
			Crefyddau Eraill	9
Anabledd	Cyfanswm		Oed	Cyfanswm
Datgan yn Anabl	8		16-34	10
Datgan yn Abl	51		35-49	29
Statws heb ei Ddatgan	0		50+	20

### 2.3.2 Sylwadau/Dadansoddiad

Mae'r data'n awgrymu bod nifer anghymesur o staff BME ac anabl yn destun i achosion disgyblu, er bod y niferoedd yn gymharol fach, mae hon yn parhau tuedd a amlygwyd yn adroddiad y flwyddyn flaenorol.

Am y flwyddyn gyntaf rydym hefyd wedi gweld nifer anghymesur o ddynion a chynrychiolaeth o staff dros 50-54 oed. Mae'n rhy gynnar i sefydlu unrhyw duedd ond bydd y data hwn yn cael ei adolygu mewn adroddiadau yn y dyfodol.

### 2.3.3 Argymhellion

- Bod dadansoddiad pellach yn cael ei wneud i nodi'r rhesymau dros y gwahaniaethau amlwg yng nghyswllt y ganran o achosion disgyblu yn erbyn staff BME ac anabl.

## 2.4 Presenoldeb

Mae lefelau uchel o bresenoldeb a pherfformiad yn hanfodol i gyflawni cyflwyno busnes llwyddiannus. Gyda llai o adnoddau, bydd y CPS yn parhau i fynd ati i ganolbwyntio ar sicrhau'r mwyaf bosibl o bresenoldeb a chefnogi gweithwyr i ddarparu canlyniadau cyflenwi gwasanaeth cadarnhaol.

### 2.4.1 Canfyddiadau

- Cyfartaledd y dyddiau gwaith a gollwyd (AWDL) drwy absenoldeb oherwydd salwch eleni yw 8.9 diwrnod sy'n ostyngiad bychan o 9 diwrnod

y llynedd, ond mae'n dal i fod ychydig yn uwch na'r cyfartaledd Gwasanaeth Sifil o 8.2 diwrnod.

- **Rhywedd** - yr AWDL i fenywod yw 10 diwrnod a 6.9 ar gyfer dynion.
- **Hil** - Yr AWDL i weithwyr BME yw 10.6 diwrnod sy'n gynydd o 9.5 diwrnod y llynedd.
- **Anabledd** - Yr AWDL i weithwyr anabl yw 19.5 diwrnod o gymharu â 18.9 yn 2009-10; fodd bynnag, fel y llynedd, nid yw'r ffigwr hwn yn gwahaniaethu rhwng absenoldeb oherwydd salwch ac absenoldeb anabledd, felly, ni ellir dibynnu arno'n ystadegol.
- **Cyfeiriadedd Rhywiol** - Yr AWDL i staff LGB yw 7.3 diwrnod.
- **Crefydd neu Gredo** – Y grŵp gyda'r AWDL uchaf yw'r staff hynny a ddatganodd ei bod o grefyddau 'eraill', sef 15.5 o ddiwrnodiau.
- **Oedran** – Y grwpiau oedran gyda'r AWDL uchaf yw'r rheiny dros 50 oed, sef cyfartaledd o 12.5 diwrnod.

**Tabl N - Cyfartaledd y Diwrnodiau Gwaith a Gollwyd (AWDL) drwy absenoldeb salwch o 2010 -11**

Presenoldeb	2009/10	2010/11
Cyfartaledd y Diwrnodiau Gwaith a Gollwyd	9.0	8.9
Cyfanswm y Diwrnodiau Gwaith a Gollwyd	76218	74600

## 2.5 Rheoli Presenoldeb

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae'r CPS yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau'r presenoldeb mwyaf bosibl ac am y tro cyntaf, rydym yn adrodd yn benodol ar weithrediad achosion ffurfiol o dan ein polisi rheoli presenoldeb.

### 2.5.1 Canfyddiadau

- Roedd 9.46% (793) o staff CPS yn destun i gyfarfodydd presenoldeb ffurfiol eleni a 3.96% (332) o staff CPS yn destun i weithredu ffurfiol yn dilyn y cyfarfodydd hyn.
- **Rhywedd** – Roedd 74.27% (589) o'r staff a oedd yn destun i gyfarfodydd presenoldeb ffurfiol yn fenywod fel ag yr oedd 72.59% (241) o'r staff a oedd yn destun i achosion ffurfiol yn dilyn y cyfarfodydd hyn.
- **Hil** – Roedd 13.87% (110) o'r staff a oedd yn destun i gyfarfodydd presenoldeb ffurfiol yn BME fel ag yr oedd 19.88% (66) o'r staff a oedd yn destun i achosion ffurfiol yn dilyn y cyfarfodydd hyn.



- **Anabledd** – Roedd 10.72% (85) o'r staff a oedd yn destun i gyfarfodydd presenoldeb ffurfiol yn anabl fel ag yr oedd 12.95% (43) o'r staff a oedd yn destun i achosion ffurfiol yn dilyn y cyfarfodydd hyn.
- **Cyfeiriadedd Rhywiol** – Roedd 1.38% (11) o'r staff a oedd yn destun i gyfarfodydd presenoldeb ffurfiol yn LGB fel ag yr oedd 0.9% (3) o'r staff a oedd yn destun i achosion ffurfiol yn dilyn y cyfarfodydd hyn.
- **Crefydd neu Gredo** – Ni wnaeth y mwyafrif o staff 42.11% (334) a oedd yn destun i gyfarfodydd presenoldeb ffurfiol ddatgan crefydd neu gredo. Y grŵp mwyaf i wneud datganiad oedd Cristnogion ar 34.93% (277). Hefyd roedd Cristnogion yn cyfrif am y 15.13% (120) o'r staff a oedd yn destun i achosion ffurfiol yn dilyn y cyfarfodydd hyn.
- **Oedran** - Roedd staff o bob grŵp oedran yn destun i gyfarfodydd presenoldeb a gweithredu ffurfiol. Roedd y rhan fwyaf o staff a oedd yn destun i gyfarfodydd presenoldeb a gweithredu ffurfiol o fewn y grŵp oedran 35-49.

**Tabl O - Nifer o gyfarfodydd presenoldeb ffurfiol a gweithredu ffurfiol yn dilyn cyfarfodydd yn ôl nodweddion a ddiogelir**

Rhywedd	Cyfarfod ffurfiol	Gweithredu ffurfiol yn dilyn cyfarfod	Cyfeiriadedd Rhywiol	Cyfarfod ffurfiol	Gweithredu ffurfiol yn dilyn cyfarfod
<b>Dynion</b>	204	91	<b>Dynion/Menywod Heterorywiol</b>	434	200
<b>Menywod</b>	589	241	<b>LGB</b>	11	3
			<b>Dim Ateb</b>	333	122
<b>Hil</b>			<b>Crefydd</b>		
<b>BME</b>	110	66	<b>Cristion</b>	277	120
<b>Gwyn</b>	578	228	<b>Dim Crefydd neu Gredo</b>	69	29
<b>Ethnigrwydd Anhysbys</b>	105	38	<b>Dim Ateb</b>	334	123
			<b>Crefyddau Eraill</b>	113	60
<b>Anabledd</b>			<b>Oed</b>		
<b>Datgan yn Anabl</b>	85	43	<b>16-34</b>	183	81
<b>Datgan yn Abl</b>	621	253	<b>35-49</b>	398	166
<b>Statws heb ei Ddatgan</b>	87	36	<b>50+</b>	212	85

## 2.5.2 Sylwadau/Dadansoddiad

Mae'r data AWDL yn dangos bod staff sy'n fenywod gydag AWDL uwch na chyfartaledd y CPS, fel ag y mae staff anabl. Mae'r ffigur ar gyfer staff anabl yn debygol iawn o fod wedi'i chwyddo'n ormodol oherwydd nad yw'r

data yn gwahaniaethu rhwng absenoldeb oherwydd salwch ac absenoldeb anabledd, felly, ni ellir dibynnu arno'n ystadegol. Mae'r system Adnoddau Dynol newydd a gyflwynwyd yn 2011-12 bellach yn gallu gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o absenoldeb, felly bydd data cywir ar gael ar gyfer yr adroddiad nesaf.

Nid yw'r data ar hyn o bryd yn caniatáu i ni holi'n llawn am yr holl nodweddion gweithwyr sy'n cymryd absenoldeb salwch sy'n gysylltiedig â straen. Felly, nid oes modd sefydlu p'un a oes cyswllt â phrofiad gwaith ac effaith ar bresenoldeb.

Mae nifer y staff BME ac anabl sy'n destun cyfarfodydd ffurfiol a gweithredu yn anghymesur o uchel o gymharu â'u lefelau cynrychiolaeth yn gyffredinol.

### 2.5.3 Argymhellion

- Bod prosesau monitro ar hyn o bryd yn cael eu diwygio i ddal nodweddion y gweithwyr sy'n cymryd absenoldeb salwch sy'n gysylltiedig â straen.
- Bod systemau yn cael eu rhoi yn eu lle ar frys i sicrhau cofnodi absenoldeb salwch ac absenoldeb cysylltiedig ag anabledd ar wahân i weithwyr anabl.
- Bod dadansoddiad manwl o achosion rheoli presenoldeb yn cael ei wneud i nodi achosion posibl o'r anghymesuredd amlwg yn y nifer o staff anabl a BME sy'n destun i gyfarfodydd presenoldeb ffurfiol a gweithredu ffurfiol.

## 2.6 Tribiwnlysoedd Cyflogaeth

Mae'r adran hon yn tynnu sylw at y ganran o achosion ET a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn adrodd. Nid yw gwybodaeth am ganlyniadau ar gael ar hyn o bryd, felly bydd y wybodaeth ddiweddaraf o achosion a gwblhawyd yn cael eu hadrodd ar yn yr adroddiad 2011-12.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cafodd 43 o achosion ET eu cyflwyno.

### 2.6.1 Canfyddiadau

- Cyflwynodd 0.42% o staff (36) CPS gyfanswm o 43 ET eleni. Cyflwynwyd y 43 o dribiwnlysoedd o dan 102 o benawdau hawliad. Y penawdau hawliad a godwyd amlaf oedd diswyddo annheg (17), gwahaniaethu ar sail hil (14), a gwahaniaethu ar sail anabledd (12).
- **Rhywedd** - O'r 43 o achosion ET, cafodd 58.13% (25) eu cyflwyno gan fenywod.
- **Hil** - Cafodd 39.53% (17) o ETs eu cyflwyno gan staff BME.

- **Anabledd** - Cafodd 13.95% (6) o ETs eu cyflwyno gan staff anabl.
- **Cyfeiriadedd Rhywiol** - Ni chafodd unrhyw ETs eu cyflwyno gan staff LGB.
- **Crefydd neu Gredo** – Y grwpiau crefyddol a gyflwynodd y mwyaf o ETs oedd Cristnogion a gyflwynodd 34.88% o achosion.
- **Oedran** - Y grwpiau oedran a gyflwynodd y mwyaf o ETs oedd y grŵp oedran 35-49 ar 46.51% (20) yn cael ei ddilyn yn agos gan y grŵp dros 50 oed ar 41.86% (18).

**Tabl P - Nifer y tribiwnlysoedd cyflogaeth yn ôl nodweddion a ddiogelir**

Rhywedd	Cyfanswm		Cyfeiriadedd Rhywiol	Cyfanswm
Dynion	18		Dynion/Menywod Heterorywiol	25
Menywod	25		LGB	0
			Dim Ateb	5
Hil	Cyfanswm		Crefydd	Cyfanswm
BME	17		Cristion	15
Gwyn	25		Dim Crefydd neu Gredo	3
Ethnigrwydd Anhysbys	1		Dim Ateb	12
			Crefyddau Eraill	13
Anabledd	Cyfanswm		Oed	Cyfanswm
Datgan yn Anabl	6		16-34	5
Datgan yn Abl	37		35-49	20
Statws heb ei Ddatgan	0		50+	18

**Tabl Q - Nifer o achosion a gyflwynwyd rhwng Ebrill 2010 a Mawrth 2011**

	Niferoedd
Nifer o hawliadau ET	43
Nifer o bobl	36
Nifer o wahanol benawdau hawlio	102

Penawdau hawlio	
Gwahaniaethu ar Sail Hil	14
Gwahaniaethu ar sail Rhyw	9
Gwahaniaethu ar sail Anabledd	12
Diswyddo Annheg	17
Oed	2
Crefydd neu Gredo	1
Datgelu Gwarchoddedig	4
Erledigaeth	3
Cyflog Heb ei Dalu	2
Didynnu Heb Awdurdod o Gyflog	3
Gweithwyr Rh/A	2
Torri Contract	9
Diswyddo Adeiladol	6
Diswyddo Ar Gam	0
Gweithgareddau / Aelodaeth ULI	1
Chwythu'r Chwiban	1
Rheoliadau Amser Gweithio	4
Cyflog Cyfartal	2
Arall ( gan gynnwys methu â thalu tâl diswyddo)	10
<b>Cyfanswm nifer y penawdau</b>	<b>102</b>

### 2.6.2 Sylwadau/Dadansoddiad

Mae'r 43 o ETs a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli cynnydd o 5.71% ar y 35 yn y flwyddyn flaenorol, gan barhau â'r duedd ar i fyny yn y blynyddoedd diwethaf. Mae canran y staff anabl a BME wedi gostwng ychydig eleni, ond mae'n parhau i fod yn anghymesur o uchel wrth ystyried cyfanswm yr achosion a gyflwynwyd.

Dyma'r AEER cyntaf i adrodd ar nifer yr achosion ET yn ôl cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gredo ac oedran. Felly nid oes unrhyw ddata cymharol ar gyfer y grwpiau hyn.

### 2.6.3 Argymhellion

- Bod dadansoddiad pellach o'r holl achosion ET yn cael ei wneud i benderfynu ar achosion yr anghyasuredd amlwg yn y nifer o ETs a gyflwynwyd gan staff BME ac anabl.

## 3.0 Ynglŷn â'n Staff

Mae'r CPS wedi ymrwymo i gyflogi gweithlu medrus, llawn cymhelliant, ymgysylltiedig a chynrychioliadol.

### 3.1 Ymgysylltiad Staff

Mae ymgysylltu effeithiol gweithwyr yn arwain at i weithwyr deimlo eu bod wedi'u hysbrydoli, yn llawn egni a chymhelliant, yn barod i roi o'u gorau ac yn barod i fynd y filltir ychwanegol. Mae'n hanfodol cadw talent allweddol, cynllunio olyniaeth a sicrhau lefelau uchel o berfformiad unigolyn, tîm, a sefydliad, a bodlonrwydd defnyddwyr y gwasanaeth.

Mae'r Mynegai Ymgysylltu Gweithwyr (EEI) yn fesur busnes allweddol. Mae'n mynd y tu hwnt i fesur pa mor fodlon yw'r gweithwyr. Gellir ei ddiffinio fel parodrwydd a gallu gweithwyr i fuddsoddi eu hymdrech bersonol yn llwyddiant y sefydliad.

Mesurodd yr Arolwg Staff 2010 Ymgysylltiad Gweithwyr i ddechrau, a gyrwyr allweddol o ymgysylltu ar draws y CPS.

[http://www.cps.gov.uk/publications/research/cps\\_survey\\_highlights\\_2011.pdf](http://www.cps.gov.uk/publications/research/cps_survey_highlights_2011.pdf)

Mae un o themâu Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2010 yn ymwneud â thegwch a chynhwysedd a oedd yn cynnwys y cwestiynau canlynol:

- Yr wyf yn cael fy nhrin yn deg yn y gwaith.
- Yr wyf yn cael fy nhrin â pharch gan y bobl y maent yn gweithio gyda nhw.
- Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi am y gwaith a wnânt.
- Rwy'n credu bod y CPS yn parchu gwahaniaethau unigol (e.e. diwylliant, dulliau gweithio, cefndiroedd, syniadau ayb).
- Yn ystod y 12 mis diwethaf a ydych yn bersonol wedi profi gwahaniaethu yn y gwaith?
- Yn ystod y 12 mis diwethaf a ydych wedi cael profiad personol o fwlio neu aflonyddu yn y gwaith?

#### 3.1.1 Canfyddiadau

- Roedd EEI y CPS yn 53%.
- Roedd yr EEI ar gyfer gweithwyr anabl yn 47%, sy'n sylweddol is (-6%) na'r EEI cyffredinol ar gyfer y CPS.
- Roedd EEI y staff a ddatganodd grefydd neu greddo (Cristnogion, Hindŵ, Iddewig, Moslemiaid a Sikh) ar gyfartaledd yn uwch na'r EEI cyffredinol ar gyfer y CPS, ac eithrio'r staff hynny sy'n perthyn i grefyddau eraill. Roedd y sgorau EEI uwch yn amrywio o 3% -9% uwchlaw sgôr y CPS yn gyffredinol.

- Roedd gan staff na ddatganodd unrhyw grefydd neu greddo sgôr EEI a oedd 3% yn is nag un y CPS.
- Roedd yr EEI i staff LGB yn 49% sydd 4% yn is na'r EEI cyffredinol.
- Roedd yr EEI i staff dros 50 yn 56% sydd 3% yn is na'r EEI cyffredinol; nid oedd unrhyw wahaniaeth yn yr EEI cyffredinol mewn perthynas â grwpiau oedran eraill.
- Nododd 13% o'r holl staff eu bod wedi profi gwahaniaethu yn y gwaith, ond roedd y ffigwr yn sylweddol uwch ar gyfer staff anabl a BME lle'r oedd y ffigyrau yn 28% ac 16% yn ôl eu trefn.
- Nododd 12% o'r holl staff eu bod wedi profi bwlio ac aflonyddu o'i gymharu â 30% o staff anabl a 16% o staff BME.

**Tabl R - Mynegai Ymgysylltu Gweithwyr (EEI) ar gyfer 2009-10 yn ôl nodweddion a ddiogelir**

Rhywedd	EEI 2009	EEI 2010	% Gwahaniaeth cyfartaledd CPS 2010/11 o 53
Dynion	55%	52%	-1
Menywod	58%	54%	+1
<b>Hil</b>			
BME	57%	56%	+3
Gwyn	57%	53%	0
<b>Anabledd</b>			
Datgan yn Anabl	49%	47%	-6
Datgan yn Abl	57%	54%	+1
<b>Cyfeiriadedd Rhywiol</b>			
Dynion/Menywod Heterorywiol	-	54%	+1
LGB	-	49%	-4
<b>Crefydd</b>			
Cristion	-	56%	+3
Dim Crefydd neu Greddo	-	50%	-3
Crefyddau Eraill	-	55%	+2
<b>Oed</b>			
16-34	-	53%	0
35-49	-	53%	0
50+	-	56%	+3

### 3.1.2 Sylwadau/Dadansoddiad

Gallai'r gostyngiad o 3% mewn ymgysylltiad staff yn 2010 gael ei ddylanwadu gan y ffaith bod cyfnod yr arolwg yn rhedeg yn gyfochrog â'r cyhoeddiad adolygiad gwariant a lansiad rhaglen drawsnewidiol y CPS; fodd bynnag, mae'r lefelau is o ymgysylltiad ar gyfer rhai grwpiau yn tueddu i awgrymu y gallai ffactorau eraill fod wedi dylanwadu ar yr EEI i'r grwpiau hyn.

### 3.1.3 Argymhellion

- Y dylai'r EDU ac Adnoddau Dynol ar y cyd barhau i ymchwilio i achosion posibl y profiadau gwahaniaethol andwyol ar draws yr holl grwpiau a warchodir.
- Y dylai'r CPS feincnodi ei berfformiad yn erbyn sefydliadau sy'n perfformio'n dda yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus gyda golwg ar nodi arfer gorau a chyflwyno arferion arloesol ar draws y sefydliad er mwyn galluogi gwell ymgysylltiad â gweithwyr.
- Y dylid datblygu cynnydd yn erbyn Cynlluniau Gweithredu Ardal mewn ymateb i Ganlyniadau Arolwg Staff Ardal a monitro hwn mewn Adolygiadau Perfformiad Ardal.

## 3.2 Recriwtio a Chadw Staff

Mae'r CPS yn sylweddoli bod manteision amlwg o ran sicrhau gweithlu cynrychioliadol a bod recriwtio teg ac effeithiol a pholisïau cadw staff yn ganolog i ddenu a chadw gweithlu amrywiol, llawn cymhelliant a hyblyg.

### 3.2.1 Ceisiadau Allanol

Mae ymgeiswyr allanol yn cael eu diffinio fel ceisiadau wedi'u cwblhau a dderbyniwyd yn erbyn ymgyrchoedd allanol sy'n agored i weithwyr y CPS ac ymgeiswyr y tu allan i'r CPS ac wrth adrodd ar ganfyddiadau, ni wahaniaethir rhwng ceisiadau mewnol ac allanol.

Yn ystod y cyfnod adrodd, derbyniodd y CPS 3105 o geisiadau a phenodwyd 36.

### 3.2.2 Canfyddiadau

- **Rhywedd** - O'r ymgeiswyr hynny a ddarparodd wybodaeth monitro cydraddoldeb, roedd 56% yn fenywod a 32.7% yn ddynion.
- **Hil** - Roedd 39.7% o ymgeiswyr allanol yn BME.

- **Anabledd** - Roedd 4.2% o ymgeiswyr allanol yn anabl.
- **Cyfeiriadedd Rhywiol** - Roedd 3.7% o ymgeiswyr allanol yn LGB.
- **Crefydd neu Gredo** - Ar 40.7%, Cristnogion oedd y grŵp crefyddol mwyaf a wnaeth gais am swydd, ac yna gan bobl heb unrhyw grefydd neu gredo ar 14.4%. Roedd cynrychiolaeth wedi ei wasgaru'n eithaf cyfartal ar draws bob crefydd a chredo arall.
- **Oedran** - Y grŵp mwyaf o ymgeiswyr allanol oedd y grŵp oedran 20-24 a oedd yn cyfrif am 40.3% o geisiadau. Yn dilyn hyn roedd y grŵp oedran 25-29 ar 19.6%. Y grwpiau oedran â'r gynrychiolaeth isaf oedd y rhai 60+, ar lai na 1%.

### 3.2.3 Penodiadau Allanol

### 3.2.4 Canfyddiadau

- **Rhywedd** – O'r 36 o benodiadau, roedd 52.78% (19) yn fenywod.
- **Hil** – Roedd 13.89% (5) o gymunedau BME.
- **Anabledd** – ni phenodwyd neb gydag anabledd datganedig.
- **Cyfeiriadedd Rhywiol** – Roedd 2.78% (1) o gymunedau LGB, yn ogystal â chynrychiolaeth debyg i'r categori 'arall'.
- **Crefydd neu Gredo** – Roedd 28.8% (9) o'r bobl a benodwyd yn Gristnogion gan eu gwneud y grŵp crefyddol mwyaf.
- **Oedran** - Roedd penodiadau wedi eu gwasgaru ar draws bob grŵp oedran.

### 3.2.5 Ceisiadau mewnol

Roedd ymgeiswyr mewnol yn cael eu diffinio fel ceisiadau wedi'u cwblhau a dderbyniwyd mewn ymateb i ymgyrchoedd mewnol.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cafwyd 289 o geisiadau oddi wrth ymgeiswyr mewnol a gwnaethpwyd cyfanswm o 68 o benodiadau.

### 3.2.6 Canfyddiadau

- **Rhywedd** - O'r ymgeiswyr hynny a ddarparodd wybodaeth monitro cydraddoldeb, roedd 53.6% (155) yn fenywod, 34.6% (100) yn ddynion ac ni wnaeth 11.8% (34) datgan eu rhywedd.
- **Hil** – Roedd 42.6% (123) o ymgeiswyr mewnol yn BME.



- **Anabledd** – Roedd 4.8% (14) o ymgeiswyr mewnol yn anabl.
- **Cyfeiriadedd Rhywiol** – Roedd 2.7% (8) o ymgeiswyr mewnol yn LGB.
- **Crefydd neu Gredo** - Ar 41.7%, Cristnogion oedd y grŵp crefyddol mwyaf a wnaeth gais am swydd, ac yna gan bobl heb unrhyw grefydd neu gredo ar 18% (52).
- **Oedran** – Roedd ceisiadau mewnol wedi eu gwasgaru'n eithaf cyfartal ar draws bob grŵp oedran.

### 3.2.7 Penodiadau mewnol

### 3.2.8 Canfyddiadau

- O'r 289 o geisiadau mewnol, gwnaethpwyd 68 o benodiadau.
- **Rhywedd** – Roedd 38.24% (26) o'r penodiadau mewnol yn fenywod.
- **Hil** – Roedd 16.18% (11) o'r penodiadau mewnol yn BME.
- **Anabledd** – Roedd 1.47% (1) o'r penodiadau mewnol yn anabl.
- **Cyfeiriadedd Rhywiol** – Roedd 1.47% (1) o'r penodiadau mewnol yn LGB.
- **Crefydd neu Gredo** - Ar 38.8%, Cristnogion oedd y grŵp crefyddol datganedig mwyaf o'r penodiadau mewnol. Roedd cynrychiolaeth yn nhermau crefydd wedi ei wasgaru'n eithaf cyfartal ar draws bob crefydd a chredo arall.
- **Oedran** - Roedd penodiadau wedi eu gwasgaru ar draws bob grŵp oedran ond dim ond 2.9% o'r penodiadau mewnol oedd dros 50.

**Tabl S - Penodiadau yn ôl nodweddion a ddiogelir**

Rhywedd	Ymgeiswyr Mewnol	Ymgeiswyr Allanol	Cyfanswm Ymgeiswyr	Cyfanswm Penodiadau
Dynion	34.6%	32.7%	32.8%	41.3%
Menywod	53.6%	56.0%	55.8%	43.3%

Hil				
BME	42.6%	39.7%	40.0%	15.4%
Gwyn	49.2%	56.4%	50.6%	79.8%

Categori Anabledd				
Datgan yn Anabl	4.8%	4.2%	4.2%	1.0%
Datgan yn Abl	80.6%	84.5%	84.2%	73.1%
Statws heb ei Ddatgan	14.5%	11.3%	11.6%	26.1%
Cyfeiriadedd Rhywiol				
Dynion/Menywod Heterorywiol	79.2%	84.3%	81.4%	44.2%
LGB	1.7%	3.6%	3.3%	1.0%
Dim Ateb	13.5%	8.1%	8.3%	39.4%
Crefydd				
Cristion	41.5%	40.7%	40.8%	28.8%
Dim Crefydd neu Gredo	1.4%	14.4%	13.3%	4.8%
Dim Ateb	18.0%	9.6%	10.3%	40.4%
Crefyddau Eraill	39.1%	35.2%	35.5%	26.0%
Oed				
16-34	42.6%	73.3%	70.7%	44.2%
35-49	43.3%	20.1%	22.0%	13.5%
50+	14.2%	6.6%	7.2%	2.9%

### 3.3 Dyrchafiad Dros Dro

Yn ystod y flwyddyn adrodd, cafodd 340 o staff eu dyrchafu dros dro. Mae hyn yn cynrychioli 4.06% o'r gweithlu cyfan. Roedd cyfanswm o 351 o achosion pan gafodd aelod o staff eu dyrchafu dros dro.

Nid oes data cymharol ar gyfer 2009-10.

#### 3.3.1 Canfyddiadau

- **Rhywedd** – Roedd 68.82% (234) o'r staff a ddyrchafwyd dros dro eleni yn fenywod.
- **Hil** – Roedd 17.65% (60) o'r staff a ddyrchafwyd dros dro eleni yn BME.

- **Anabledd** – Roedd 2.65% (9) o'r staff a ddyrchafwyd dros dro eleni yn anabl.
- **Cyfeiriadedd Rhywiol** – Roedd 2.65% (9) o'r staff a ddyrchafwyd dros dro eleni yn LGB.
- **Crefydd neu Gredo** - Ar 42.65% (145), Cristnogion oedd y grŵp crefyddol mwyaf o staff a ddyrchafwyd dros dro, yn cael eu dilyn gan staff heb unrhyw grefydd neu gredo ar 9.12% (31). Roedd cynrychiolaeth yn nhermau crefydd wedi ei gwasgaru'n eithaf cyfartal ar draws bob crefydd a chredo arall.
- **Oedran** - Roedd dyrchafiadau dros dro yn eithaf wedi eu dosbarthu'n gyfartal ar draws pob grŵp oedran.

**Tabl T - Nifer o ddyrchafiadau dros dro yn ôl nodweddion a ddiogelir**

Rhywedd	Cyfanswm unigolion	Cyfanswm digwyddiadau
Dynion	106	107
Menywod	234	244

Hill		
BME	60	62
Gwyn	252	259
Ethnigrwydd Anhysbys	28	30

Anabledd		
Datgan yn Anabl	9	9
Datgan yn Abl	304	314
Statws heb ei Ddatgan	27	28

Cyfeiriadedd Rhywiol		
Dynion/Menywod Heterorywiol	226	235
LGB	9	9
Dim Ateb	93	95

Crefydd		
Cristion	145	151
Dim Crefydd neu Gredo	31	32
Dim Ateb	98	100
Crefyddau Eraill	66	68

Oed		
16-34	141	146
35-49	140	143
50+	59	62

### 3.4 Benthyciadau

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cafodd 61 o staff eu rhoi ar fenthyg i mewn neu allan o'r CPS.

#### 3.4.1 Canfyddiadau

- **Rhywedd** – Roedd 54.10% (33) o staff benthycy yn fenywod.
- **Hil** - Roedd 9.84% (6) o staff benthycy yn BME.
- **Anabledd** – Nid oedd unrhyw staff benthycy yn anabl.
- **Cyfeiriadedd Rhywiol** – Roedd 3.28% (2) o staff benthycy yn LGB.
- **Crefydd neu Gredo** - Y grŵp crefyddol unigol mwyaf o staff benthycy oedd Cristnogion ar 19.67% (12) yn cael eu dilyn gan staff heb unrhyw grefydd neu gredo ar 6.56% (4).
- **Oedran** - Y grŵp unigol mwyaf o staff benthycy oedd y grŵp oedran 35- 49 ar 62.3%.

**Tabl U - Nifer o fenthyciadau yn ôl nodweddion a ddiogelir**

Rhywedd	Cyfanswm		Cyfeiriadedd Rhywiol	Cyfanswm
Dynion	28		Dynion/Menywod Heterorywiol	18
Menywod	33		LGB	2
			Dim Ateb	36
Hil	Cyfanswm		Crefydd	Cyfanswm
BME	6		Cristion	12
Gwyn	41		Dim Crefydd neu Gredo	4
Ethnigrwydd Anhysbys	14		Dim Ateb	38
			Crefyddau Eraill	7
Anabledd	Cyfanswm		Oed	Cyfanswm
Datgan yn Anabl	0		16-34	10
Datgan yn Abl	53		35-49	38
Statws heb ei Ddatgan	8		50+	13

### 3.5 Symudiadau a Reolir

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn roedd 3 symudiad a reolir. Oherwydd y niferoedd bach yn y categori hwn, nid oedd yn bosibl torri i lawr y ffigyrau heb adnabod y staff dan sylw, felly nid oedd yn bosibl dadansoddi'r data.

### 3.5.1 Sylwadau/dadansoddiad

Roedd canran y dynion a fenthycwyd allan neu i mewn i'r CPS ychydig yn uwch na'u cynrychiolaeth gyffredinol yn y gweithlu.

Mae staff anabl yn parhau i gael eu tangynrychioli mewn penodiadau, dyrchafiadau a benthyciadau.

### 3.5.2 Argymhelliad

- Bod Adnoddau Dynol ac EDU yn monitro ac adrodd ar y nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd benthyciad ar gyfer yr holl grwpiau ac yn parhau i alluogi staff i fanteisio ar gyfleoedd datblygu fel y bo'n briodol.

## 3.6 Ymadawyr

Gadawodd cyfanswm o 666 o staff y gwasanaeth eleni, gyda 75 yn gadael dan y Cynllun Ymadael Gwirfoddol. Mae'r ffigyrau isod yn dadansoddi'r data ar gyfer yr holl ymadawyr.

### 3.6.1 Canfyddiadau

- **Rhywedd** - Roedd menywod yn cyfrif am 64.56% (430) o'r holl ymadawyr.
- **Hil** – Roedd 14.56% (97) o ymadawyr yn BME.
- **Anabledd** – Roedd 5.86% (39) o ymadawyr yn anabl.
- **Cyfeiriadedd Rhywiol** – Roedd 2.85% (19) o ymadawyr yn LGB.
- **Crefydd neu Gredo** – Roedd ymadawyr wedi'u gwasgaru'n eithaf cyfartal ar draws yr holl grwpiau crefyddol, Cristnogion oedd y grŵp crefyddol unigol mwyaf o ymadawyr ar 34.23% (228), yn cael eu dilyn gan staff heb unrhyw grefydd neu gredo ar 8.56% (57).
- **Oedran** – Roedd ymadawyr yn dod o bob grŵp oed, y grŵp a'r ganran uchaf o ymadawyr oedd y grŵp oedran 16-34 ar 40.24% (268).

**Tabl V - Nifer o ymadawyr yn ôl nodweddion a ddiogelir**

Rhywedd	Cyfanswm		Cyfeiriadedd Rhywiol	Cyfanswm
Dynion	35.44%		Dynion/Menywod Heterorywiol	54.95%
Menywod	64.56%		LGB	2.85%
			Dim Ateb	38.59%
Hil	Cyfanswm		Crefydd	Cyfanswm
BME	14.56%		Cristion	34.23%
Gwyn	69.82%		Dim Crefydd neu Gredo	8.56%
Ethnigrwydd Anhysbys	15.62%		Dim Ateb	39.34%
			Crefyddau Eraill	17.72%
Anabledd	Cyfanswm		Oed	Cyfanswm
Datgan yn Anabl	5.86%		16-34	40.24%
Datgan yn Abl	85.89%		35-49	25.68%
Statws heb ei Ddatgan	8.26%		50+	34.08%

### 3.6.2 Sylwadau/Dadansoddiad

Mae'r gyfradd gadw o 7.9% yn is na chyfartaledd y sector cyhoeddus o 12.6%. Nid oes unrhyw anghyfartaledd amlwg yng nghyswllt staff o unrhyw un o'r grwpiau a warchodir.

## 3.7 Ymadael yn Wirfoddol

I gyflawni gofyniad y llywodraeth i weithredu'r Adolygiad Gwariant a gwneud arbedion effeithlonrwydd o 50% o staff pencadlys a 25% o'r gwasanaethau rheng flaen dros 4 blynedd, mae'r CPS yn cynnig cyfle i staff adael y sefydliad yn wirfoddol. Roedd 11% (75) o staff a adawodd y sefydliad yn ystod y cyfnod adrodd, wedi gwneud hynny ar sail gadael yn wirfoddol.

### 3.7.1 Canfyddiadau

- **Rhywedd** – Roedd 62.67% (47) o'r staff a adawodd drwy'r cynllun gadael gwirfoddol yn fenywod.
- **Hil** – Roedd 17.33% (13) o'r staff a adawodd drwy'r cynllun gadael gwirfoddol yn BME.
- **Anabledd** – Roedd 5.33% (4) o'r staff a adawodd drwy'r cynllun gadael gwirfoddol yn anabl.
- **Cyfeiriadedd Rhywiol** – Roedd 4.00% (3) of staff a adawodd drwy'r cynllun gadael gwirfoddol yn LGB.

- **Crefydd neu Gredo** - Ar 54.67% (41), Cristnogion oedd y grŵp crefyddol unigol mwyaf staff i adael y CPS drwy'r cynllun gadael gwirfoddol ac yna staff heb unrhyw grefydd neu gredo ar 8%. Roedd ymadawyr wedi'u gwasgaru'n eithaf cyfartal ar draws yr holl grwpiau crefyddol eraill.
- **Oedran** - Roedd cynrychiolaeth wedi'i gwasgaru'n eithaf cyfartal ar draws bob grŵp oedran. Y grŵp oedran mwyaf oedd y grŵp dros 50 oed, ar 45.33% (34).

**Tabl W - Nifer o ymadawyr gwirfoddol yn ôl nodweddion a ddiogelir**

Rhywedd	Cyfanswm		Cyfeiriadedd Rhywiol	Cyfanswm
Dynion	37.33%		Dynion/Menywod Heterorywiol	68.00%
Menywod	62.67%		LGB	4.00%
			Dim Ateb	24.00%
Hil	Cyfanswm		Crefydd	Cyfanswm
BME	17.33%		Cristion	54.67%
Gwyn	69.33%		Dim Crefydd neu Gredo	8.00%
Ethnigrwydd Anhysbys	13.33%		Dim Ateb	24.00%
			Crefyddau Eraill	13.33%
Anabledd	Cyfanswm		Oed	Cyfanswm
Datgan yn Anabl	5.33%		16-34	18.67%
Datgan yn Abl	90.67%		35-49	36.00%
Statws heb ei Ddatgan	4.00%		50+	45.33%

### 3.7.2 Sylwadau/Dadansoddiad

Nid oes unrhyw wahaniaeth anghyfartal sylweddol yng nghyfraddau ymadael staff o grwpiau a warchodir gwahanol a staff yn gyffredinol.

## 3.8 Seibiant Gyrfa

Mae'r Cynllun Seibiant Gyrfa'r CPS yn bolisi cyfeillgar i deuluoedd, sy'n agored i'r holl staff ar hyn o bryd, ac sy'n cynnwys meini prawf cymhwyster digon hyblyg i alluogi'r rhai sydd angen seibiant gyrfa am fwy na 3 mis er mwyn cydbwysu ymrwymiadau gwaith a phersonol. Mae hefyd yn rhoi cyfle i'r CPS gadw staff sydd â sgiliau, gwybodaeth a phrofiad gwerthfawr.

### 3.8.1 Canfyddiadau

- Cymerodd 134 o staff fantais o'r Cynllun Seibiant Gyrfa eleni.
- **Rhywedd** – Roedd 88.81% (119) o staff a fanteisiodd ar y Cynllun Seibiant Gyrfa yn fenywod.

- **Hil** – Roedd 23.88% (32) o'r staff a fanteisiodd ar y Cynllun Seibiant Gyrfa yn BME.
- **Anabledd** – Roedd 2.24% (3) o'r staff a fanteisiodd ar y Cynllun Seibiant Gyrfa yn anabl.
- **Cyfeiriadedd Rhywiol** – Roedd 0.75% (1) o'r staff a fanteisiodd ar y Cynllun Seibiant Gyrfa yn LGB.
- **Crefydd neu Gredo** – Roedd gwasgariad eithaf cyfartal o grefyddau a chredoau gan y staff a fanteisiodd ar y Cynllun Seibiant Gyrfa. Y grŵp unigol mwyaf ar 11.94% (16) oedd Cristnogion.
- **Oedran** – Cymerodd staff o amrediad o grwpiau oed fantais ar y Cynllun Seibiant Gyrfa eleni. Y grŵp oedran gyda'r gynrychiolaeth fwyaf oedd y grŵp oedran 35-49, ar 60.45%.

**Tabl X - Nifer o seibiannau gyrfa yn ôl nodweddion a ddiogelir**

Rhywedd	Cyfanswm		Cyfeiriadedd Rhywiol	Cyfanswm
Dynion	11.19%		Dynion/Menywod Heterorywiol	17.91%
Menywod	88.81%		LGB	0.75%
			Dim Ateb	79.85%
Hil	Cyfanswm		Crefydd	Cyfanswm
BME	23.88%		Cristion	11.94%
Gwyn	57.46%		Dim Crefydd neu Gredo	2.24%
Ethnigrwydd Anhysbys	18.66%		Dim Ateb	79.85%
			Crefyddau Eraill	5.97%
Anabledd	Cyfanswm		Oed	Cyfanswm
Datgan yn Anabl	2.24%		16-34	31.34%
Datgan yn Abl	76.87%		35-49	60.45%
Statws heb ei Ddatgan	20.90%		50+	8.21%

### 3.8.2 Sylwadau/Dadansoddiad

Menywod oedd mwyafrif helaeth y staff a gymerodd seibiant gyrfa eleni, sy'n tueddu i awgrymu bod y polisi hwn yn helpu i gadw menywod yn y gweithlu.

### 3.9 Hyfforddiant

Mae hyfforddiant yn cael ei ystyried yn hanfodol i symud cydraddoldeb ac amrywiaeth yn eu blaen, a sicrhau bod gan y CPS weithlu hyderus, medrus, arloesol a hyblyg sy'n gallu cyflenwi'r blaenoriaethau busnes cyfredol, ac sy'n adeiladu gallu ar gyfer y dyfodol ac yn ymateb i newid yn effeithiol.



Mae'r data ar hyfforddiant yn cynnwys pob gweithgaredd hyfforddiant sy'n ymwneud â chyfluoedd datblygiadol cyfreithiol a heb fod yn gyfreithiol. Mae'r nifer y gweithwyr sy'n derbyn hyfforddiant yn fwy na ffigyrau cyfrif pen staff, oherwydd bod rhai gweithwyr yn cymryd rhan mewn hyfforddiant ar fwy nag un achlysur.

### 3.9.1 Canfyddiadau

#### Hyfforddiant Cyfreithiol

- Cwblhaodd 4464 o staff hyfforddiant cyfreithiol gan gynnwys dysgu wyneb yn wyneb, e-ddysgu a dysgu hunan-gyfeiriadol.
- **Rhywedd** – Roedd 62.43% (2787) o staff a gwblhaodd hyfforddiant cyfreithiol yn fenywod.
- **Hil** – Roedd 13.04% (582) o staff a gwblhaodd hyfforddiant cyfreithiol yn BME.
- **Anabledd** – Roedd 5.15% (230) o staff a gwblhaodd hyfforddiant cyfreithiol yn anabl.
- **Cyfeiriadedd Rhywiol** – Roedd 1.54% (69) o staff a gwblhaodd hyfforddiant cyfreithiol yn LGB.
- **Crefydd neu Gredo** – Cwblhaodd staff o bob grŵp crefydd a chredo beth hyfforddiant cyfreithiol eleni. Y grŵp crefyddol unigol mwyaf ar 32.19% (1437) oedd Cristnogion yn cael eu dilyn ar 6.7% (300) gan staff heb unrhyw grefydd neu gredo.
- **Oedran** - Cwblhaodd staff o bob grŵp oedran posibl beth hyfforddiant cyfreithiol eleni, gyda'r gynrychiolaeth uchaf o'r grŵp oedran 35-49 ar 52.84% (2359).

#### Hyfforddiant nad yw'n Hyfforddiant Cyfreithiol

- Cwblhaodd 3189 o staff hyfforddiant nad yw'n hyfforddiant cyfreithiol.
- **Rhywedd** – Roedd 66.48% (2120) o'r staff a gwblhaodd hyfforddiant nad yw'n hyfforddiant cyfreithiol yn fenywod.
- **Hil** – Roedd 18.60% (593) of staff a gwblhaodd hyfforddiant nad yw'n hyfforddiant cyfreithiol yn BME.
- **Anabledd** – Roedd 6.11% (195) of staff a gwblhaodd hyfforddiant nad yw'n hyfforddiant cyfreithiol yn anabl.

- **Cyfeiriadedd Rhywiol** – Roedd 2.51% (80) of staff a gwblhaodd hyfforddiant nad yw'n hyfforddiant cyfreithiol yn LGB.
- **Crefydd neu Gredo** - Cwblhaodd staff o bob grŵp crefydd a chredo beth hyfforddiant nad yw'n hyfforddiant cyfreithiol eleni. Y grŵp crefyddol unigol mwyaf oedd Cristnogion ar 32.19% (1026) yn cael eu dilyn gan staff heb unrhyw grefydd neu gredo ar 6.7% (214).
- **Oedran** - Cwblhaodd staff o amrediad o grwpiau oedran beth hyfforddiant nad yw'n hyfforddiant cyfreithiol eleni. Y grŵp gyda'r gynrychiolaeth uchaf oedd y grŵp oedran 35-49 ar 55.88% (1782).

### **Hyfforddiant TG**

- Cymerodd 233 o staff ran mewn hyfforddiant cysylltiedig â TG eleni.
- **Rhywedd** – Roedd 60.94% (142) o staff a gwblhaodd hyfforddiant TG yn fenywod.
- **Hil** – Roedd 21.89% (51) o staff a gwblhaodd hyfforddiant TG yn BME.
- **Anabledd** – Roedd 5.15% (12) o staff a gwblhaodd hyfforddiant TG yn anabl.
- **Cyfeiriadedd Rhywiol** – Roedd 0.43% (1) o staff a gwblhaodd hyfforddiant TG yn LGB, fodd bynnag, roedd digwyddiad uwch na'r cyffredin ar 19.31% (45) o staff yn y grŵp 'arall' ac ni wnaeth 17.17% ddatgan eu cyfeiriadedd rhywiol.
- **Crefydd neu Gredo** – Cwblhaodd staff o bob grŵp crefydd a chredo beth hyfforddiant TG, y grŵp crefyddol unigol mwyaf oedd Cristnogion ar 36.05% (84) yn cael eu dilyn ar 8.58% (20) gan staff heb unrhyw grefydd neu gredo.
- **Oedran** - Cwblhaodd staff o amrediad o grwpiau oedran hyfforddiant TG eleni, gyda'r gynrychiolaeth uchaf o'r grŵp oedran 35-49 ar 48.07% (112).

**Tabl Y - Hyfforddiant yn ôl nodweddion a ddiogelir**

Rhywedd	Cyfreithiol	Ddim yn gyfreithiol	TG
Dynion	37.57%	33.52%	39.06%
Menywod	62.43%	66.48%	60.94%

Hil			
BME	13.04%	18.60%	21.89%
Gwyn	74.04%	72.88%	47.21%
Ethnigrwydd Anhysbys	12.93%	8.53%	30.90%

Anabledd			
Datgan yn Anabl	5.15%	6.11%	5.15%
Datgan yn Abl	83.92%	87.52%	88.41%
Statws heb ei Ddatgan	10.93%	6.37%	6.44%

Cyfeiriadedd Rhywiol			
Dynion/Menywod Heterorywiol	47.40%	64.53%	57.51%
LGB	1.55%	2.51%	0.43%
Dim Ateb	47.18%	29.88%	17.17%

Crefydd			
Cristion	32.19%	43.37%	36.05%
Dim Crefydd neu Gredo	6.72%	9.66%	8.58%
Dim Ateb	48.07%	29.98%	34.33%
Crefyddau Eraill	13.02%	17.00%	21.03%

Oed			
16-34	18.53%	22.48%	30.04%
35-49	52.84%	55.88%	48.07%
50+	28.63%	21.64%	21.89%

### 3.9.2 Sylwadau/Dadansoddiad

Er bod amrywiadau bach yn y nifer o wahanol fathau o hyfforddiant gan grwpiau a warchodir, nid oes unrhyw dueddiadau amlwg yn deillio o'r data.

At ei gilydd, mae'r nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd hyfforddi i'r rhan fwyaf o grwpiau yn parhau'n gyson â'u cynrychiolaeth gyffredinol yn y gweithlu.

Fodd bynnag, ar gyfartaledd, cymerodd 1.49% o staff LGB fantais ar gyfleoedd hyfforddi o gymharu â'u cynrychiolaeth o 4.84% yn y gweithlu.

### 3.9.3 Argymhellion

- Y dylai'r CPS barhau i fonitro ac adrodd ar y nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd hyfforddi mewn perthynas â chrefydd /credo, cyfeiriadedd rhywiol ac oedran er mwyn dadansoddi p'un a oes unrhyw wahaniaethau neu dueddiadau.
- Y dylai Adnoddau Dynol gadw cofnod o staff sydd wedi cael eu gwrthod ar gyfer hyfforddiant er mwyn canfod p'un a oes unrhyw anghymesuredd.

## Atodiad A

### Rhestr Tablau

A	Cyfraddau datganiad gweithlu ar gyfer yr holl nodweddion a ddiogelir
B	Ethnigrwydd gweithwyr
C	Cyfeiriadedd Rhywiol gweithwyr
D	Crefydd gweithwyr
E	Ethnigrwydd gweithwyr yn ôl gradd
F	Gweithwyr anabl yn ôl gradd
G	Cyfeiriadedd Rhywiol gweithwyr yn ôl gradd
H	Crefydd neu Gredo gweithwyr yn ôl gradd
I	Oedran gweithwyr yn ôl gradd
J	Patrymau gwaith gweithwyr yn ôl nodweddion a ddiogelir
K	Nifer o gwynion yn ôl nodweddion a ddiogelir
L	Nifer o gyfarfodydd ffurfiol a gweithredu ffurfiol yn dilyn cyfarfodydd yn ôl nodweddion a ddiogelir
M	Nifer o achosion disgyblaethol yn ôl nodweddion a ddiogelir
N	Cyfartaledd y Diwrnodiau Gwaith a Gollwyd drwy absenoldeb salwch
O	Nifer o gyfarfodydd presenoldeb ffurfiol a gweithredu ffurfiol yn dilyn cyfarfodydd yn ôl nodweddion a ddiogelir
P	Nifer y triwlynlysoedd cyflogaeth yn ôl nodweddion a ddiogelir
Q	Nifer o achosion a gyflwynwyd rhwng Ebrill 2010 a Mawrth 2011 yn ôl nodweddion a ddiogelir
R	Mynegai Ymgysylltu Gweithwyr ar gyfer 2009-2010 yn ôl nodweddion a ddiogelir
S	Penodiadau yn ôl nodweddion a ddiogelir
T	Nifer o ddyrchafiadau dros dro yn ôl nodweddion a ddiogelir
U	Nifer o fenthyciadau yn ôl nodweddion a ddiogelir
V	Nifer o ymadawyr yn ôl nodweddion a ddiogelir
W	Nifer o ymadawyr gwirfoddol yn ôl nodweddion a ddiogelir
X	Nifer o seibiannau gyrfa yn ôl nodweddion a ddiogelir
Y	Hyfforddiant yn ôl nodweddion a ddiogelir

### Rhestr Siartiau

A	Tueddiadau cynrychiolaeth yn y gweithlu ar gyfer 2009 - 2011
B	Dosbarthiad oedran staff
C	Cyfran rhywedd yn ôl gradd weinyddol
D	Cyfran rhywedd yn ôl gradd gyfreithiol

## **Atodiad B**

### **Rhestr o Argymhellion**

#### **1.0 Cynrychiolaeth Gweithlu**

##### **1.1 Cyfraddau Datganiad**

- Bod mwy o waith yn cael ei wneud gyda'r Undebau Llafur Adrannol a Rhwydweithiau Staff i nodi ac ymdrin ag unrhyw rwystrau a allai arwain at ddiffyg hyder yn y broses datganiad a /neu i beidio â datgelu data personol.
- Bod ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth pellach yn cael eu cynnal fel mater o drefn i ddangos pwysigrwydd casglu data cyflogaeth ac esbonio'r manteision i unigolion a'r sefydliad.

##### **1.2 Proffil Gweithlu**

- Dylai'r EDU ymgymryd ag ymchwil i mewn i'r rhesymau dros y gostyngiad diweddar yn y ganran o staff BME.

##### **1.3 Cynrychiolaeth Staff yn ôl Gradd**

- Bod y CPS yn datblygu Rhaglen Rheoli Talent i sicrhau ei fod yn gallu cynnal amrywiaeth ei weithlu ar draws yr holl raddau i ymdrin â meysydd o dan-gynrychiolaeth.
- Bod y CPS yn cynnal dadansoddiad pellach i'r diffyg cynrychiolaeth staff anabl ar y radd SCA.

##### **1.4 Patrymau Gwaith Amrywiol**

- Bod y CPS yn sicrhau bod effaith y newidiadau mewn polisiau, arferion neu brosesau ar bobl sy'n gweithio hyblyg gael ei ystyried fel rhan o'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb.

#### **2.0 Polisiau ac Arferion Cyflogaeth**

##### **2.1 Cwynion**

- Y dylai proses fwy cadarn gael ei datblygu ar gyfer casglu data ar ganlyniadau cwynion ffurfiol ac anffurfiol.
- Y dylai casglu data ar gwynion gael ei ymestyn i gynnwys ymatebwyr.
- Bod gwaith pellach yn cael ei wneud i nodi ac ymdrin â'r rhesymau dros yr anghymesuredd parhaus yn y ganran o gwynion a wnaethpwyd gan weithwyr anabl.

- Bod dadansoddiad pellach yn cael ei wneud o achosion cwynion er mwyn nodi unrhyw dueddiadau cyffredinol gyda'r bwriad o ddatblygu canllawiau i'w hymgorffori mewn hyfforddiant perthnasol gan Arweinyddiaeth a Dysgu a, lle y bo'n briodol er mwyn hysbysu unrhyw ddiwygiad a gweithrediad y polisi cwynion.
- Bod data cydraddoldeb mewn perthynas â'r defnydd o gyfryngu yn cael ei gasglu ar gyfer dadansoddiad mewn adroddiadau yn y dyfodol.

## **2.2 Rheoli Perfformiad Gwael**

- Y dylai EDU ac Adnoddau Dynol mewn partneriaeth â DTUS a Rhwydweithiau Staff barhau i weithio gyda'r busnes ehangach i gynyddu'r cyfraddau datganiad i staff sy'n destun i berfformiad gwael yn ogystal â gweithdrefnau cyflogi eraill er mwyn galluogi dadansoddiad ystyrlon o unrhyw effeithiau andwyol cydraddoldeb posibl sy'n gysylltiedig â gweithredu'r polisi hwn.

## **2.3 Disgyblu**

- Bod dadansoddiad pellach yn cael ei wneud i nodi'r rhesymau dros y gwahaniaethau amlwg yng nghyswllt y ganran o achosion disgyblu yn erbyn staff BME ac anabl.

## **2.5 Rheoli Presenoldeb**

- Bod prosesau monitro ar hyn o bryd yn cael eu diwygio i ddal nodweddion y gweithwyr sy'n cymryd absenoldeb salwch sy'n gysylltiedig â straen.
- Bod systemau yn cael eu rhoi yn eu lle ar frys i sicrhau cofnodi absenoldeb salwch ac absenoldeb cysylltiedig ag anabledd ar wahân i weithwyr anabl.
- Bod dadansoddiad manwl o achosion rheoli presenoldeb yn cael ei wneud i nodi achosion posibl o'r anghymesuredd amlwg yn y nifer o staff anabl a BME sy'n destun i gyfarfodydd presenoldeb ffurfiol a gweithredu ffurfiol.

## **2.6 Tribiwnlysoedd Cyflogaeth**

- Bod dadansoddiad pellach o'r holl achosion ET yn cael ei wneud i benderfynu ar achosion yr anghymesuredd amlwg yn y nifer o ETs a gyflwynwyd gan staff BME ac anabl.

## **3.0 Ynglŷn â'n Staff**

### **3.1 Ymgysylltiad staff**

- Y dylai'r EDU ac Adnoddau Dynol ar y cyd barhau i ymchwilio i achosion posibl y profiadau gwahaniaethol andwyol ar draws yr holl grwpiau a warchodir.
- Y dylai'r CPS feincnodi ei berfformiad yn erbyn sefydliadau sy'n perfformio'n dda yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus gyda golwg ar nodi arfer gorau a chyflwyno arferion arloesol ar draws y sefydliad er mwyn galluogi gwell ymgysylltu â gweithwyr.
- Y dylid datblygu cynnydd yn erbyn Cynlluniau Gweithredu Ardal mewn ymateb i Ganlyniadau Arolwg Staff Ardal a monitro hwn mewn Adolygiadau Perfformiad Ardal.

### **3.2 Recriwtio a Chadw Staff**

- Bod Adnoddau Dynol a EDU yn monitro ac adrodd ar y nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd benthyg ar gyfer yr holl grwpiau ac yn parhau i alluogi staff i fanteisio ar gyfleoedd datblygu fel y bo'n briodol.
- Bod yr UDE ac AD yn parhau i fonitro ac adrodd ar y rhesymau pam fod staff yn gadael yr adran a rhoi sylw i unrhyw bryderon fel bo angen.

### **3.9 Hyfforddiant**

- Y dylai'r CPS barhau i fonitro ac adrodd ar y nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd hyfforddi mewn perthynas â chrefydd / credo, cyfeiriadedd rhywiol ac oedran er mwyn dadansoddi p'un a oes unrhyw wahaniaethau neu dueddiadau.
- Y dylai Adnoddau Dynol gadw cofnod o staff sydd wedi cael eu gwrthod ar gyfer hyfforddiant er mwyn canfod p'un a oes unrhyw anghymesuredd.



## **Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

**Mae copïau pellach o'r adroddiad ar gael i'w lawr lwytho  
mewn Adobe Acrobat PDF ar wefan y CPS**

**[www.cps.gov.uk](http://www.cps.gov.uk)**

Mai 2012